TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# APMG Rhithwir Ar-lein - Rheoli Prosiectau Hyblyg (AgilePMÂ®) Sylfaen




**Yn gryno**

Darganfyddwch gysyniadau Agile, dewch  i ddeall egwyddorion uwch a dysgwch sut i reoli prosiectau yn fwy effeithiol ac effeithlon gyda methodolegau rheoli prosiect Agile.

Mae fframwaith rheoli prosiect Agile yn defnyddio dull cynyddrannol o ran y prosesau adeiladu a rheoli, a bydd y cwrs hwn yn eich addysgu am gysyniadau allweddol y fframwaith, a sut i'w rhoi ar waith mewn prosiectau go iawn, gan gynyddu cyfraddau llwyddo.

Mae’r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy’n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy’n addas i’w ffordd o fyw presennol.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un dros 19 oed, sy'n byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...unrhyw un sy'n croes-hyfforddi ar gyfer swydd mewn rheoli prosiectau sydd angen cymhwyster i agor opsiynau cyflogaeth newydd.

..unrhyw un sydd eisiau deall eu rôl yn well, gwella eu gwybodaeth ac angen tystiolaeth o'u profiad Agile.

**Cynnwys y cwrs**

Yn ystod y cwrs, byddwch yn dysgu'r canlynol:

Athroniaeth ac egwyddorion sylfaenol Agile
Cylch bywyd prosiect Agile, gan gynnwys cyfluniadau amgen
Y cynhyrchion a gynhyrchwyd yn ystod prosiect Agile a'u pwrpas
Y technegau a ddefnyddir a'u manteision a'u cyfyngiadau
Y rolau a'r cyfrifoldebau o fewn prosiect Agile

**Gofynion Mynediad**

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, mae diddordeb brwd yn y pwnc yn ddigon.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Darperir y cwrs hwn drwy ddosbarth rhithiol. Mae dosbarthiadau rhithiol yn gyfwerth â chyrsiau dosbarth wyneb yn wyneb, ond fe'u darperir mewn amgylchedd ar-lein.

Bydd angen i chi neilltuo 2 diwrnod ar gyfer mynychu'r cwrs hwn.

Mae'r cwrs yn cynnwys arholiadau sy'n cael eu goruchwylio ar-lein, ac mae angen dyfais sydd wedi cysylltu â'r we gyda meicroffon a gwe-gamera arnoch.